15.7 The motion was seconded.

15.8 Members commented in favour of the motion.

15.9 A recorded vote was taken, with members voting as shown in the table below, with 31 members voting in favour of the motion and 3 members voting against the motion. Council agreed, with the majority voting in favour to support the motion:

COUNCILLOR	**FOR**	**AGAINST**
Stuart Ashley	✓	

Alfie Best	✓	
Catherine Bonera	*Not present for the vote*	
Ron Burnett	*Not present for the vote*	
Nick Byrne	✓	
Richard Clark	✓	
Lynda Clarkson	✓	
Liam Cowles	✓	
Fiona Cross	✓	
David Daniels	✓	
Steven Evans	✓	
Joanne Gauden	✓	
Karl Gauden	✓	
Elizabeth Haynes	*Not present for the vote*	
Nick Horler	✓	
Jon Horlor	✓	
Anthony Hunt	✓	
Gaynor James	✓	
Jon James	✓	
Janet Jones	✓	
Mark Jones	✓	
Peter Jones	✓	
Stuart Keyte		✓
Rosemary Matthews	✓	
Sue Morgan	✓	
Jason O'Connell	*Not present for the vote*	
Amanda Owen	✓	
Norma Parrish	✓	
Caroline Price	✓	
Rose Seabourne	✓	
Nicholas Simons	✓	
Alan Slade		✓
Chris Tew	*Not present for the vote*	
Colette Thomas	✓	
David Thomas		✓
Jayne Watkins	✓	
David Williams	✓	
Lucy Williams	✓	
Nathan Yeowell	✓	

16. MEMBER QUESTION TIME

16.1 Member questions with replies are set out in Appendix A to these minutes.

17. CABINET DECISIONS – 14/01/2025

17.1 Council unanimously agreed to note the Cabinet Decisions.

18. CABINET DECISIONS – 04/02/2025

18.1 Council unanimously agreed to note the Cabinet Decisions.

19. CABINET DECISIONS – 18/02/2025

19.1 Council unanimously agreed to note the Cabinet Decisions.

16. DATE AND TIME OF NEXT MEETING

16.1 The next meeting was scheduled for Tuesday 8 April at 10.00am.

Minutes produced by Dominique Redman, Team Leader Democratic and Member Services on 7 March 2025

Cofnodion CYFARFOD
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN
A gynhaliwyd ddydd Mawrth 4 Mawrth 2025 am 10.00am

Croesawodd yr Aelod Llywyddol bawb i gyfarfod hybrid y Cyngor. Hysbysodd yr Aelod Llywyddol yr Aelodau bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ac y byddai recordiad o'r cyfarfod hefyd ar gael i'w wylio yn y dyfodol. Atgoffodd yr Aelodau a oedd yn cymryd rhan ar Teams i ddefnyddio'r bar sgwrsio i nodi pan roeddynt eisiau siarad ac i gadw eu microffonau'n dawel pan nad oeddynt yn siarad. Gofynnodd hefyd i'r aelodau ddefnyddio eu camerâu ar gyfer y cyfarfod cyfan fel y amlinellir yn y Cyfarwyddyd Statudol yn Adran 4 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac yn unol â'r Polisi Cyfarfodydd Hybrid a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

1 YN BRESENNOL

Cynghorwyr:

Rose Seabourne (Cadeiryddr)

Stuart Ashley
Alfie Best
Catherine Bonera
Ron Burnett
Nick Byrne
Richard Clark (Dirprwy Arweinydd)
Lynda Clarkson
Liam Cowles
Fiona Cross
David Daniels
Giles Davies
Steven Evans
Joanne Gauden
Karl Gauden
Elizabeth Haynes
Jon Horlor
Nick Horler
Anthony Hunt (Arweinydd)
Gaynor James
Jon James
Janet Jones
Mark Jones
Peter Jones
Stuart Keyte
Rosemary Matthews
Susan Morgan
Jason O'Connell
Amanda Owen
Norma Parrish
Caroline Price
Nicholas Simons
Alan Slade
Chris Tew
Colette Thomas
David Thomas
Jayne Watkins
David Williams
Lucy Williams
Nathan Yeowell

Swyddogion:
Louise Day, Rheolwr Cyfathrebu
Robert Green, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
Rebecca Fahey-Jones, Arweinydd Tîm Craffu
Delyth Harries, Swyddog Monitro a Phrif Swyddog Cyfreithiol Cynorthwyol
Neil Jones, Pennaeth Cyfathrebu, Ymgysylltu a Digwyddiadau Sifil Posibl
Dave Leech, Cyfarwyddwr Strategol, Oedolion a Chymunedau
Andrew Lovegrove, Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau
Robert Green, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
Jason Lewis, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
Dominique Redman, Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democrataidd ac Aelodau
Tom Roberts, Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Busnes a Democrataidd
Jason O'Brien, – Cyfarwyddwr Strategol, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Chris Slade, Arweinydd Cynorthwyol Tîm Gwasanaethau Democrataidd ac Aelodau
Stephen Vickers, Prif Weithredwr
Dave Weaver, Swyddog Cyllid Grŵp

Eraill Yn bresennol:

Cynrychiolwyr Partneriaeth Natur Leol Blaenau Gwent a Thorfaen
Cynrychiolwyr Ysgol Gynradd Pontnewydd
Cynrychiolwyr Cyngor Ieuenctid Torfaen
2 Aelod o'r wasg a'r cyhoedd

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Giles Davies.

3. DATGAN BUDDIANNAU

3.1 Cyfeiriodd y Swyddog Monitro a Phrif Swyddog Cyfreithiol Cynorthwyol (SMPhSCC) at Eitem 9 ar yr Agenda, Cyllideb 2025-26 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 a dywedodd wrth aelodau y byddai ganddynt fuddiant personol os oedden nhw'n aelod o Gyngor Cymuned. Cyfeiriodd hefyd at Eitem 10 yr Agenda, Cynllun Sirol 2022-27: Cynllun Cyflawni 2025-26 a oedd yn cyfeirio at Gynghorau Cymuned, sef Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân a dywedodd wrth aelodau o'r cynghorau cymuned hynny y byddai ganddynt hefyd fuddiant personol mewn perthynas â'r eitem hon. Cadarnhaodd yr aelodau canlynol eu buddiannau personol:

<u>Aelodau o Gyngor Cymuned Pont-y-pŵl, Y Cynghorwyr:</u>
Nick Byrne
Lynda Clarkson
Jon Horler
Gaynor James
Jon James
Rosemary Matthews
Caroline Price
Nicholas Simons

<u>Aelodau o Gyngor Cymuned Cwmbrân, Y Cynghorwyr:</u>
Stuart Ashley
David Thomas
Peter Jones
Sue Morgan

<u>Aelod o Gyngor Cymuned Henllys, Y Cynghorwyr:</u>
Ron Burnett
Colette Thomas

<u>Aelod o Gyngor Cymuned Croesyceiliog a Llanyrafon, Y Cynghorydd:</u>
David Williams

<u>Aelod o Gyngor Tref Blaenafon, Y Cynghorydd:</u>
Liam Cowles

3.2 Cyfeiriodd y SMPhSCC at Eitem 14 ar Agenda, Datganiad Polisi Tâl 2025 a dywedodd

wrth aelodau y byddai ganddynt fuddiant personol a niweidiol pe bai ganddynt gydymaith personol agos a oedd yn gweithio i'r awdurdod lleol. Eglurodd fod y Polisi Tâl yn cynnwys y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS), ond nid oedd yn cynnwys athrawon na staff cymorth. Cadarnhaodd yr Aelodau canlynol eu buddiannau personol a niweidiol:

Y Cynghorwyr:
Janet Jones
Alan Slade
Jayne Watkins
Joanne Gauden
Colette Thomas
Rose Seabourne

3.3 Eglurodd y SMPhSCC y byddai'r Cynghorydd Stuart Ashley, Dirprwy Aelod Llywyddol, yn cadeirio'r cyfarfod ar gyfer Eitem 16 ar Agenda, Datganiad Polisi Tâl 2025, gan fod gan yr Aelod Llywyddol fuddiant sy'n niweidiol. Dywedodd hefyd y dylai pob swyddog adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon ar yr agenda gan fod cynnwys yr adroddiad yn berthnasol iddyn nhw. Cytunodd yr aelodau y gallai Jason Lewis, Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Corfforaethol, a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd sef Dominique Redman a Chris Slade a oedd yn cynorthwyo gyda gweithrediad y cyfarfod aros ar gyfer yr eitem hon.

4. CADARNHAU COFNODION – 21/01/2025

4.1 Cadarnhaodd y Cyngor fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2025 yn gywir.

5. Y DIWEDDARAF AM Y CAMAU GWEITHREDU

5.1 Nododd y Cyngor y daflen weithredu.

6. DEISEBAU A DDERBYNIWYD

6.1 Ni chafwyd unrhyw ddeisebau.

7. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

7.1 Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

8. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD NEU'R PRIF WEITHREDWR

8.1 Yr Arweinydd:

- Croesawodd yr Arweinydd y Cynghorydd Stuart Keyte a oedd wedi ennill isetholiad yn ddiweddar i wasanaethu fel cynghorydd ward Trefddyn a Phen-y-garn ochr yn ochr â'r Cynghorydd Jon Horlor.
- Cyfeiriodd at yr astudiaeth achos gadarnhaol a gynhyrchwyd gan Estyn ar Gyngor Torfaen a'r arferion effeithiol yn dilyn yr arolygiad diweddaraf. Dywedodd wrth y cyngor fod hyn wedi cael ei gyhoeddi ar wefan Estyn, a dywedodd ymhellach fod cyhoeddi arfer effeithiol yn ffordd wych o rannu gwybodaeth a dysgu.

- Cyfeiriodd at y cyfleuster parcio a theithio newydd yng Ngorsaf Reilffordd Pont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd a agorodd ddydd Gwener diwethaf. Dywedodd wrth y cyngor bod y cyfleuster yn cynnwys 129 o fannau parcio cyffredinol, 11 o leoedd parcio hygyrch, cilfachau beiciau modur, mannau diogel i feiciau a chilfachau gollwng, pont droed newydd, a lifftiau sy'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn a beiciau. Dywedodd fod y prosiect wedi cael ei ariannu gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, Llywodraeth Cymru a'r cyngor, a'i fod yn un o'r cyntaf i gael ei gwblhau fel rhan o gynllun Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i greu system Metro De Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:
  - Gwelliannau i'r platfform a'r ardal eistedd
  - Gwell teledu cylch cyfyng a goleuo
  - Systemau gwybodaeth newydd i gwsmeriaid a phwynt cymorth

  Roedd yn gobeithio y byddai'r cyfleuster newydd yn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r orsaf, gan arwain at gynnydd mewn gwasanaethau trenau.
- Cyfeiriodd at Ddiwrnod Myfyrdod COVID-19 2025 a oedd yn Ddiwrnod Myfyrio ledled y DU a fyddai'n cael ei gynnal ddydd Sul 9 Mawrth 2025, ac roedd yn un o'r deg argymhelliad a nodwyd gan Gomisiwn y DU ar Goffáu Covid. Eglurodd fod pobl ledled y DU, i nodi pum mlynedd ers y pandemig, wedi cael gwahoddiad i ddod at ei gilydd i gofio a myfyrio ar y cyfnod unigryw o hanes yn ogystal â'u profiadau eu hunain. Bydd y diwrnod yn gyfle i'r cyhoedd gofio a choffáu'r rhai a gollodd eu bywydau yn ystod y pandemig, myfyrio ar yr aberth a wnaed a'r effaith ar fywydau bob dydd, a thalu teyrnged i waith staff iechyd a gofal cymdeithasol, gweithwyr rheng flaen, a phawb a wirfoddolodd ac a ddangosodd garedigrwydd yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Dywedodd y byddai'r cyngor hefyd yn helpu grŵp cymorth lleol i nodi Diwrnod Rhyngwladol Ymwybyddiaeth Covid Hir ar 15fed Mawrth trwy oleuo'r ganolfan ddinesig yn wyrddlas. Dywedodd wrth y cyngor bod y grŵp cymorth yn cyfarfod yng Nghanolfan Byw Egnïol Pont-y-pŵl ddwywaith y mis.
- Croesawyd Prif Fachgen a Phrif Ferch Ysgol Gynradd Pontnewydd i dderbyn Gwobr Ddinesig ar ran yr ysgol i gydnabod eu cyfraniad eithriadol at gwblhau Prosiect Coedwig Fechan, a gysegrwyd er cof am eu diweddar Bennaeth, Kerry Waters, a fu farw ym mis Hydref 2024. Eglurodd fod disgyblion o'r Meithrin hyd at flwyddyn 6, eu rhieni ac aelodau teuluol wedi plannu coed, ochr yn ochr â'r athrawon, llywodraethwyr, chwaraewyr o Glwb Pêl-droed Casnewydd, Clwb Rygbi'r Dreigiau a busnesau o'r gymuned leol. Roedd yr ardal newydd ar dir yr ysgol oedd â 600 o goed yn cael ei hadeiladu gyda chyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Byddai'r prosiect hwn yn galluogi'r plant i gael mwy o wersi ym myd natur.
- Croesawodd Steve Williams a oedd yn adnabyddus i lawer o'i rôl ecolegol flaenorol yn y Cyngor cyn iddo ymddeol, ac a oedd yn derbyn Gwobr Ddinesig ar ran Partneriaeth Natur Leol Blaenau Gwent a Thorfaen i gydnabod eu 25 mlynedd yn cydweithio er budd y gymuned. Eglurodd fod y bartneriaeth wedi gweithio'n ddiflino dros 25 mlynedd i wella natur ledled y fwrdeistref gan gynnwys cynnal digwyddiad blynyddol Go Wild yn ystod nifer o'r blynyddoedd hynny, gan roi cyfle i bobl ddathlu natur leol. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, roedden nhw wedi elwa o gyllid gan Leoedd Lleol ar gyfer Natur ac, yn y cyfnod hwnnw, wedi plannu miloedd o goed, wedi creu gwrychoedd a pherllannau, wedi annog newid mewn rheolaeth ymylon ffyrdd ac wedi cefnogi grwpiau cymunedol i greu gerddi a mannau eraill ar gyfer natur. Dywedodd ymhellach fod Cymru eleni hefyd yn ystyried ac yn dathlu 10 mlynedd o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac roedd y Bartneriaeth Natur Leol yn enghraifft wych o sut y gallai gwahanol sefydliadau ac unigolion gydweithio i gyflawni nod cyffredin. Diolchodd i Steve a oedd yn parhau i fod yn rhan weithredol o'r bartneriaeth - ynghyd â llawer o rai eraill sy'n gwirfoddoli eu hamser i'r achos pwysig hwn a diolchodd hefyd i Veronika

Brannovic sef y Cydlynydd y Bartneriaeth ac a fu'n aelod am dros 20 mlynedd.

- Croesawyd aelodau o Gyngor Ieuenctid Pont-y-pŵl a roddodd gyflwyniad ar eu Profiad Gefeillio ym Mharis a ddigwyddodd yn ystod haf 2024. Diolchodd i Gynghorau Cymuned am gefnogi Profiadau Gefeillio a oedd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant ifanc.

8.2 Llongyfarchodd y Dirprwy Arweinydd aelodau Cyngor Ieuenctid Pont-y-pŵl ar eu cyflwyniad, gan gydnabod nad oedd yn hawdd sefyll yn y Siambr a chyflwyno i'r Aelodau. Soniodd am y cyfleoedd gwych sy'n gysylltiedig â'r profiad gefeillio, yn enwedig wrth nesáu at 80 mlynedd ers y Rhyfel yn Ewrop.

8.3 Fel Arweinydd Cyngor Cymuned Pont-y-pŵl, soniodd y Cynghorydd Gaynor James am y cyfleoedd anhygoel i blant ifanc ymweld â gwledydd Ewrop, a llongyfarchodd Aelodau Cyngor Ieuenctid Pont-y-pŵl.

8.4 Gwnaeth aelodau eraill sylwadau ar ba mor dda oedd gweld plant ifanc yn y Siambr ac anogon nhw ymgysylltiad â phlant ifanc yn y dyfodol.

8.5 Canmolodd y Prif Weithredwr feddwl cyflym a gweithredoedd y gweithiwr Brian Moylan a oedd yn aelod o'r Tîm Gwastraff. Eglurodd fod Peter Scott, cyn Pennaeth Ysgol Gyfun Abersychan, yn gynnar ym mis Ionawr, wedi cael trawiad ar y galon wrth ymweld â swyddfa bost leol. Yn ddiweddar, roedd Brian wedi cwblhau cwrs gloywi cymorth cyntaf, a gyda chymorth aelodau eraill o'r criw a redodd allan o'r swyddfa bost i rybuddio Brian o'r argyfwng, roedd Brian yn ddigon hyderus i wneud CPR am tua 20 munud nes i'r ambiwlans gyrraedd a dywedwyd wrtho fod y CPR wedi achub bywyd Peter. Erbyn hyn roedd Peter wedi cwrdd â Brian a'r tîm oedd wedi cael sioc gan y profiad. Canmolodd y Prif Weithredwr waith y criw yn ehangach a diolchodd iddynt am gamu i'r adwy yn yr argyfwng. Cymeradwyodd y Cyngor Brian a'r tîm a diolch iddynt am eu rhan wrth achub bywyd Peter.

9. CYLLIDEB 2025/26 A'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

9.1 Amlinellodd y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau (CSA) yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth o:

- Y gyllideb refeniw ar gyfer 2025/26
- Lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2025/26
- Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2026/27 i 2029/30
- Y Polisi Trosglwyddo Arian
- Polisi Arian Wrth Gefn
- Strategaeth Rheoli'r Cyfalaf a'r Trysorlys, gan gynnwys y Dangosyddion Darbodus

9.2 Dywedodd y CSA fel a ganlyn:

- Diolchodd i'r Cabinet a'r holl aelodau eraill am eu hymgysylltiad llawn drwy gydol y broses o osod cyllideb ar gyfer 25/26, ac i Nigel Aurelius am drosglwyddo cyfrifoldebau Swyddog a151 yn rhwydd cyn iddo ymddeol.
- Roedd y gyllideb yn weithgaredd cyngor cyfan gan gynnwys y Tîm Gweithredol, yr Arweinyddiaeth ac uwch reolwyr a oedd wedi ymwneud yn llwyr â'r broses.
- Fel Cyngor Marmot roedd y gyllideb yn canolbwyntio ar sicrhau bod y cyngor yn gwario arian i gefnogi Egwyddorion Marmot, ac wrth gyflawni'r Cynllun Sirol.
- Roedd y broses o osod cyllideb yn dasg barhaus a ddechreuodd fis Mawrth

diwethaf, ac, ar y pryd, dangosodd y Cynllun Ariannol fod y bwlch dros gyfnod bedair blynedd yn fwy na £35miliwn. Roedd yn falch o adrodd bod gan y cyngor gyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26 yn cael ei chyflwyno iddynt heddiw, ac roedd y bwlch am y pedair blynedd nesaf yn dangos gwelliant ac roedd nawr ychydig dros £9 miliwn.

- Roedd y gyllideb a argymhellwyd yn cynnwys cynnydd yn y dreth gyngor a oedd yn un o'r isaf yng Nghymru.
- Roedd cyngor yn gweithredu sawl cynllun i helpu aelwydydd incwm isel ac anogwyd trigolion i gysylltu os oes angen unrhyw gymorth arnynt.
- Roedd yn bwysig i drigolion dalu eu treth gyngor mewn modd amserol gan fod hyn yn talu am wasanaethau rheng flaen.
- Croesawyd y setliad gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn fwy na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol. Roedd rhagor o waith i'w wneud o hyd gyda'r Cynllun Ariannol i bontio'r bwlch ac roedd y gwaith hwn yn parhau.
- Roedd y Cynllun Trawsnewid Gwasanaethau Plant yn un o'r heriau sylweddol oedd yn wynebu'r cyngor. Roedd hwn yn ddarn sylweddol o waith i adolygu a gwella'r ffordd yr oedd y cyngor yn cefnogi teuluoedd a phobl ifanc. Byddai'r pwysau costau presennol yn parhau am rywfaint eto, ac roedd y gyllideb yn rhagdybio'r defnydd o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i bontio'r bwlch, fodd bynnag, roedd hyder y gellid gwneud y newidiadau ac y gellid dychwelyd y gyllideb i gydbwysedd yn barhaus.
- Gan gyfeirio at y Rhaglen Gyfalaf, roedd buddsoddiad wedi bod mewn ysgolion, priffyrdd, ailgylchu, Fferm Greenmeadow, y Grantiau Cyfleusterau Sifil a chyfraniadau i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd.
- Fel Swyddog A151, roedd angen iddo fod yn fodlon bod lefel y cronfeydd wrth gefn yn briodol, a bod y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd i osod y gyllideb yn gadarn ac yn briodol.
- Roedd lefelau presennol y cronfeydd wrth gefn yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn y Cynllun Ariannol flwyddyn yn ôl, ac roedd y papurau'n dangos disgwyliad o rywfaint o ddefnydd cymedrol o gronfeydd wrth gefn yn ystod y blynyddoedd i ddod, ond roedd yn dal yn gyffyrddus bod y defnydd a ragwelir o gronfeydd wrth gefn a'r gweddillion yn briodol.
- Roedd yn bwysig nad oedd y cyngor yn dod yn hunanfodlon a'i fod yn cyflawni'r arbedion arfaethedig wrth iddynt gael eu mapio allan yn y gyllideb. Roedd hefyd yn bwysig bod y dreth gyngor yn cael ei thalu a'i chasglu a bod y cyngor yn parhau i gydnabod y risgiau yr oedd yn eu hwynebu, fodd bynnag, roedd yn gyfforddus bod y gyllideb a oedd yn cael ei chyflwyno yn un y gellir ei chyflawni ac yn briodol.

Dywedodd yr Arweinydd fel a ganlyn:

- Roedd adran 3.3 yr adroddiad yn amlinellu sut y dechreuwyd ar broses y gyllideb ar gyfer 2025/26 12 mis yn ôl, lle rhagwelwyd bwlch cyllido o bron i £20 miliwn. Roedd gwaith wedi'i wneud i bontio'r bwlch hwnnw drwy arbedion effeithlonrwydd, ad-drefnu'r ffordd yr oedd pethau'n cael eu gwneud, a rhoi gwasanaethau a diogelu'r rheng flaen yn gyntaf bob amser. Diolchodd i holl aelodau'r Cabinet a Chraffu am eu mewnbwn i'r broses, ac roedd yn gwerthfawrogi dull y pwyllgor craffu gan ei fod yn rhoi cyfle i'r aelodau archwilio'r cynigion yn y cam amcangyfrifon yn yr hydref, yn ogystal ag yn y cam arbedion drafft yn y Flwyddyn Newydd.
- Roedd y setliad o 4.8% wedi gwneud gwahaniaeth enfawr, gan roi dros £7m yn ychwanegol i'r cyngor fuddsoddi mewn gwasanaethau lleol a chadw biliau i lawr. Nid oedd hyn wedi gwneud pethau'n hawdd, fodd bynnag, roedd yn golygu y gallai'r cyngor ail-fuddsoddi arbedion effeithlonrwydd mewn blaenoriaethau

allweddol, gan gynnwys ysgolion, gofal cymdeithasol, trawsnewid gwasanaethau plant ac atgyweirio ffyrdd.

- Roedd paragraff 3.15 yr adroddiad yn amlinellu'r prif flaenoriaethau yr oedd y gyllideb yn eu cyflawni, gan gynnwys cynnydd yng nghyllideb ysgolion sy'n cynnwys cyllid o £5.4m i ysgolion; yr ail gyfran o gyllid ar gyfer ehangu Ysgol Arbennig Crownbridge; buddsoddiad pellach mewn cymorth ADY sy'n gysylltiedig ag ysgolion a chyllid ar gyfer pwysau galw ar Drafnidiaeth Ysgol ac ADY; cyllid i gydnabod effaith cynnydd o 5% yn y Cyflog Byw Gwirioneddol ar ddarparwyr Gofal Cymdeithasol sy'n darparu ar gyfer pwysau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal a gomisiynwyd; cyllid ychwanegol i Ofal Cymdeithasol i Oedolion i gynnal gwasanaethau ar lefelau galw o tua 1,030 o gleientiaid; cyllid ychwanegol i helpu Gwasanaethau Plant gyda'u cynllun trawsnewid; £385,000 ar gyfer gwasanaethau gwastraff a £227,000 ar gyfer addysg a gorfodaeth gwastraff, i helpu i gadw cyfraddau ailgylchu i wella a chynnal casgliadau biniau bob pythefnos; £250,000 i barhau â'r cynllun cyflogaeth/prentisiaeth i'r rhai sy'n gadael yr ysgol; arian ychwanegol tuag at Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a oedd ar hyn o bryd yn helpu 9,426 o aelwydydd ar draws Torfaen; a chyllid ychwanegol ar gyfer atgyweirio priffyrdd dros y ddwy flynedd nesaf a oedd yn cydnabod awydd y cyhoedd i fuddsoddi mewn arwynebau ffyrdd.
- Cyfeiriodd at rai o'r gwasanaethau a ddarparwyd gan y cyngor nad oeddent wedi'u hamlygu yn adroddiad y gyllideb:
- Nid oedd talu i barcio ym meysydd parcio'r cyngor.
- Roedd y cyngor wedi cadw casgliadau biniau gwastraff gweddilliol pob pythefnos ar gyfer y flwyddyn i ddod, tra'n gweithio'n galed i gynyddu ailgylchu a lleihau gwastraff.
- Roedd y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 100% ac roedd yn helpu bron i 10,000 o aelwydydd ledled y fwrdeistref.
- Roedd y Gwasanaeth Chwarae'n gwella bywydau cymaint o bobl ifanc a'u teuluoedd, yn enwedig y rhai ag anghenion ychwanegol neu anableddau.
- Roedd llyfrgelloedd ar agor, ac roedd gwaith i fuddsoddi ynddynt yn parhau.
- Roedd gwaith yn mynd rhagddo i gadw biliau i lawr ac amddiffyn gwasanaethau lleol. Roedd y cyngor yn gwneud newidiadau, yn gyrru effeithlonrwydd, yn gwneud penderfyniadau anodd ac yn diogelu gwasanaethau rheng flaen. Nid oedd unrhyw gau cyfleusterau na thoriadau i wasanaethau craidd yn y gyllideb.
- Diolch i'r aelodau, roedd ysgolion wedi bod yn un o'r prif flaenoriaethau ariannu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chyllid yn y gyllideb i fyny £6.7 miliwn a fyddai'n helpu i gadw athrawon a staff cynorthwyol i helpu pobl ifanc i ddysgu a ffynnu.
- Er gwaethaf y gwaith enfawr a wnaed gan Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, roedd rhagor o waith i'w wneud mewn ysgolion uwchradd ac, ochr yn ochr â'r Dirprwy Arweinydd, byddai'n parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i wneud popeth o fewn ei allu i fuddsoddi mewn cyfleusterau yn y dyfodol.
- Fel pob cyngor arall ar draws y DU, roedd angen buddsoddiad mewn ffyrdd. Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, byddai gwaith yn dechrau ar raglen fuddsoddi ddigynsail yn ffyrdd y cyngor, gan ganolbwyntio ar y ffyrdd lleol yng nghymunedau'r cyngor. Byddai £3m ychwanegol yn cael ei fuddsoddi dros y ddwy flynedd nesaf, ar ben y cynnydd a gytunwyd yn flaenorol mewn cyllid i drwsio ffyrdd. Nid oedd hyn yn golygu y byddai pob ffordd yn cael ei hatgyweirio ar unwaith, ond roedd yn gynllun cadarnhaol, ymarferol a realistig i wneud gwahaniaeth go iawn.
- Roedd preswylwyr hŷn neu'r rhai ag anableddau neu afiechydon yn dibynnu ar wasanaethau gofal cymdeithasol a byddai £1m yn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi yn y gwasanaethau hyn. Mae'r Gwasanaethau Oedolion hefyd wedi'u

diogelu rhag gorfod gwneud toriadau niweidiol i wasanaethau.

- Mae tua £500,000 o Grant Cymorth Tai ychwanegol wedi'i ddyrannu, gan gynnwys helpu i dalu'r cyflog byw gwirioneddol mewn gwasanaethau a gomisiynwyd, i gynyddu cyllid i bobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd ac i gefnogi'r rhai ag anghenion cymhleth yn well.
- Roedd y Gwasanaethau Plant yn gweithio ar gynllun trawsnewid, i sicrhau gwell canlyniadau i'r bobl ifanc hynny ac i wneud y gwasanaeth yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir. Roedd y gyllideb yn darparu'r buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni'r gwelliannau hynny.
- Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda thrigolion i ailgylchu mwy a gwastraffu llai. Byddai'r buddsoddiad ychwanegol yn helpu i gyflawni'r cynllun hwn tra'n cadw casgliadau bob pythefnos ar gyfer gwastraff gweddilliol .
- Roedd £250,000 yn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi i barhau â chynllun y brentisiaeth y cyngor i'r rhai sy'n gadael yr ysgol, gan roi swyddi i bobl ifanc. Roedd hyn yn cydnabod yr angen i hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr gwasanaethau lleol i gadw gwasanaethau hanfodol i fynd.
- Y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor o 4.95% oedd yr ail gynnydd isaf arfaethedig yng Nghymru ar hyn o bryd, yn dilyn ymlaen o'r isaf neu'r cyfartal isaf yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf. Erbyn hyn Torfaen oedd â'r pumed dreth gyngor isaf yng Nghymru. Roedd y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn un o'r cynlluniau mwyaf hael yn y DU, a oedd yn helpu bron i 10,000 o aelwydydd yn Nhorfaen.

Cafwyd trafodaeth ac ar y cyfan canmolodd yr aelodau'r broses o osod y gyllideb. Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau gan aelodau, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd rhewi treth y cyngor yn benderfyniad tymor byr a oedd yn costio mwy yn y tymor hir. Roedd cynghorau a oedd wedi rhewi treth y cyngor wedi cael eu gorfodi i godi llawer yn uwch yn y blynyddoedd canlynol, digidau dwbl yn aml, a arweiniodd at dorri neu gau gwasanaethau hanfodol.
- Roedd y gyllideb yn parhau i ddarparu dros £380k i grwpiau cymunedol, lleoliadau ac elusennau a oedd yn cyflawni yn ôl amcanion y Cyngor o'r Cynllun Sirol trwy Raglen Grantiau Mawr Trydydd Sector y cyngor. Darparwyd dros 200 o gymwysterau chwaraeon i bobl yn Nhorfaen, ac roedd £3.3 miliwn wedi'i fuddsoddi yng Nghronfa Ffyniant Gyffredin 2025/26 yn ogystal ag atal, cymorth, grantiau cymunedol a chomisiynau gyda'r trydydd sector.
- Roedd yn braf gweld targedu tuag at y rhai sydd â'r angen mwyaf, megis parhad y CGTC, gyllidebau uwch i ysgolion a mwy o gronfeydd cyfalaf a refeniw. Y gobaith oedd y gallai'r cyngor fod mewn sefyllfa i gadw'r cynnydd y dreth gyngor yn isel am y tymor hir.
- Roedd pob ymdrech yn cael ei wneud i ateb pwysau, ac roedd gan y cyngor hanes da o wneud hyn tra'n cadw'r dreth gyngor mor isel â phosibl. 4.95% oedd y ffigwr uchaf yn y CATC. Byddai'r cyngor yn parhau i weithio i gadw biliau mor isel â phosibl, fodd bynnag, roedd angen cael cydbwysedd a sicrhau bod y gylideb yn iawn.
- Roedd buddsoddiad wedi bod mewn gwasanaethau o fewn gofal oedolion a chymdeithasol. Roedd y cynnydd yn y dreth gyngor yn galluogi buddsoddiad mewn plant a phobl ifanc i ad-drefnu gwasanaethau, a gwasanaethau oedolion. Roedd pobl yn byw'n hirach gydag anghenion mwy cymhleth ac roedd angen buddsoddi i arbed arian. Byddai'r cynnydd o 5% i ddarparwyr gofal cymdeithasol i'w galluogi i dalu'r cyflog byw go iawn yn cadw pobl yn y sector.
- Cafodd penderfyniadau ymwybodol i roi ysgolion ar flaen yr agenda a'r gronfa ariannu. Roedd cyllidebau a dderbyniwyd ar gyfer ysgolion yn cael eu trosglwyddo

bron yn llwyr iddynt. Roedd y Gwasanaethau Plant yn bwysig ac nid oedd amheuaeth bod pwysau ariannol, fodd bynnag, roedd y cyngor wedi parhau i ddiogelu'r plant yr oedd yn gyfrifol amdanynt. Byddai canlyniad hirdymor edrych ar yr hyn a ddarparwyd gan y cyngor a sut yr oedd yn cael ei ddarparu yn arwain at ffocws mwy darbodus, mwy effeithlon, a chanlyniadau gwell i blant.

- Cyflawnodd holl ymdrech yr awdurdod yn y broses o osod cyllideb y lefelau uchaf o effeithlonrwydd ac economeiddio. Roedd gwasanaethau amgylcheddol wedi cydweithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf drwy flaenoriaethu a gwneud eu gorau i ddarparu gwasanaethau dan bwysau gwirioneddol.
- Roedd Cyllid Cyfalaf ar gyfer safle'r British yn gyllid cyfredol.
- Roedd Swmpio a Beilio'n broses barhaus fel rhan o'r gyllideb refeniw.
- Ar dudalen 165 o dan Gynnal a Chadw Asedau yn 29/30, roedd '1' ar goll o'r cyfalaf craidd, dylai'r ffigwr ddarllen £1,460,000.
- Er nad oedd aelodau'r cyhoedd eisiau cynnydd yn nhreth y cyngor, roedd cefnogaeth ysgubol ar gyfer ariannu meysydd fel ysgolion, priffyrdd a gofal cymdeithasol. Roedd yn anodd bodloni'r awydd aruthrol am fuddsoddiad heb godi refeniw.

Dywedodd yr Arweinydd fel a ganlyn:

- Roedd yn bwysig i'r cyngor fuddsoddi yn yr heolydd a'r llwybrau troed mewn cymunedau ac amgylcheddau lleol mewn ffordd gynaliadwy.
- Roedd yn bwysig cydnabod effaith penderfyniadau'r cyngor ar aelodau mwyaf bregus y gymuned. Roedd y cyngor yn darparu nifer o wasanaethau gweladwy, fodd bynnag, darparwyd nifer o wasanaethau cyfrinachol hefyd a, heb y gwasanaethau hyn, efallai na fydd aelodau bregus o'r gymuned yn gallu byw'n annibynnol a gellid trawsnewid eu bywydau mewn ffordd negyddol.
- Bu'n rhaid i'r cyngor feddwl am y tymor hir, a meddwl am yr hyn y gellid ei wneud i ymyrryd ynghynt i atal y cynnydd yn y galw am wasanaethau difrifol. Roedd angen meddwl hefyd am gynaliadwyedd o ran staffio. Ar draws llywodraeth leol roedd mwy o swyddi gwag nag erioed a mwy o broblem gyda chadw staff, yn enwedig mewn rhai ardaloedd. Roedd angen edrych i'r tymor hir ac ystyried yr hyn y gellid ei wneud i sicrhau y gallai pobl y dyfodol ddarparu'r gwasanaethau hyn.
- Dylid cydnabod hanes y cyngor o ran treth y cyngor. Y cynnydd o 1.95% ddwy flynedd yn olynol, a 4.95% bellach am ddwy flynedd yn olynol pe bai'r gyllideb hon yn cael ei phasio. Roedd mwy o waith i'w wneud, serch hynny, roedd pob ymdrech yn cael ei wneud i wneud pethau mewn ffordd gynaliadwy. Cydnabuwyd nad oedd cynnydd o 4.95% yn hawdd i bobl leol, fodd bynnag, mewn ardaloedd eraill roedd y dreth gyngor wedi cynyddu cymaint â 10%. Ni allai'r cyngor ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i lenwi'r bwlch, roedd cynaliadwyedd yn bwysig, ac nid oedd y cyngor wedi mynd i gronfeydd wrth gefn i wneud i bethau edrych yn well gan y byddai pobl yn talu am hynny yn y tymor hirach. Nid oedd y cyngor yn barod i fod yn fyrbwyll gyda gwasanaethau pobl na gyda lefelau'r dreth gyngor.
- Roedd yn bwysig cael ffigurau allan i ysgolion cyn gynted â phosibl fel y gallent osod eu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Byddai'r ffigyrau o £100,000 yn ychwanegol ar gyfartaledd ar gyfer pob ysgol gynradd a £440,000 yn ychwanegol ar gyfer pob ysgol uwchradd yn helpu i gadw staff mewn ysgolion.
- Roedd yn bwysig edrych i'r tymor hir o ran Gwasanaethau Plant er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a chanlyniadau gwell i blant. Roedd ystyried sut y gellid gwneud hyn wrth ysgogi newid ar yr un pryd yn gydbwysedd allweddol i'w wneud fel cyngor.
- Roedd y gyllideb hon yn ganlyniad ymdrech awdurdod gyfan. Roedd y gwaith cydweithredol gyda Blaenau Gwent yn mynd rhagddo a byddai arbedion yn cael

eu gwneud lle bo hynny'n bosibl o'r brig ac nid o'r rheng flaen. Roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i fod yn drawsnewidiol yn y ffordd yr oedd pethau'n cael eu gwneud ac arwain o ran newid er mwyn sicrhau dyfodol gwell.

- Roedd yn cydnabod y pwysau ar staff a oedd yn ymrwymedig dros ben fawr i'r cyhoedd yr oeddent yn eu gwasanaethu, er bod llwythi gwaith wedi cynyddu ac roedd eu cyflog mewn termau real wedi gostwng 20% dros y 15 mlynedd diwethaf. Talodd deyrnged i'r staff oedd yn gweithio yn a gyda'r cyngor.
- Roedd y cyngor yn cydnabod bod pethau'n anodd, a gallai helpu drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau allweddol a allai gadw cymunedau'n gryf a rhoi'r cyfle gorau i bobl ar gyfer y dyfodol, gan gadw costau i lawr.
- Roedd y broses graffu yn broses werth chweil, ac roedd mynd ati i graffu wrth roi amcangyfrifon at ei gilydd, ac eto ar ôl derbyn y gyllideb ddrafft gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi cyfle i aelodau edrych ar y dewisiadau y gellid eu gwneud fel cyngor cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol.
- Amddiffynnodd hawl pob aelod i ofyn cwestiynau, a chroesawodd y cwestiynau dilys a ofynnwyd am y Rhaglen Gyfalaf, yr oedd yn bwysig i gynghorwyr graffu arni yn ei farn ef.
- Diolchodd i'r Aelodau am eu sylwadau a'u cwestiynau.

9.3 Cytunodd y Cyngor, trwy fwyafrif:

Rhan 1 - Cyllideb 2025/26 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig

vii. Y cymeradwyir y gyllideb ar gyfer 2025/26 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canol, fel y nodir yn Atodiadau 1-5 i'r adroddiad hwn.

Rhan 2 – Penderfyniadau Statudol Treth y Cyngor

viii. Y nodir i'r Cabinet, yn ei gyfarfod Rhagfyr 2024, gymeradwyo'r symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2025/26 yn unol â'r rheoliadau o dan Adran 33(5) Deddf Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd):

a) 34,580 sef y swm gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol â rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995 (fel y'i diwygiwyd), fel sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn.

b) Mae'r acangyfrifon sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer ardoll pob Cyngor Cymuned ar gyfer 2025/26 fel a ganlyn:

Ardal y Cyngor Cymuned	**Sylfaen Treth y Cyngor**
Cwmbrân	14,037
Pont-y-pŵl	13,213
Blaenafon	1,969
Henllys	1,152
Croesyceiliog a Llanyrafon	3,474
Ponthir	735

c) Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent yn cynnig y symiau canlynol mewn praesept i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40(2)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1992 ar gyfer pob band aelwydydd:

A	B	C	D	E	F	G	H	I
£	£	£	£	£	£	£	£	£
251.54	293.46	335.39	377.31	461.16	545.00	628.85	754.62	880.39

ix. Bod y symiau canlynol yn cael eu cyfrif nawr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2025/26 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

a) £351,242,299 - sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif ar gyfer yr eitemau yn Adran 32(2) (a) i (e) y Ddeddf.
b) £100,945,486 - sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif ar gyfer yr eitemau yn Adran 32(3) (a) i (c) y Ddeddf.
c) £250,296,813 - sef y swm ble mae'r cyfanswm yn (iii) (a) uchod yn fwy na'r cyfanswm yn (iii) (b) a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y ddeddf, fel gofyniad y gyllideb ar gyfer y flwyddyn.
d) £89,000 - sef y swm y mae'r Awdurdod yn amcangyfrif mewn perthynas ag Adrannau 37 a 49 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), gollyngiad o'r dreth annomestig yn ôl disgresiwn.
e) £192,215,585 - sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif bydd yn daladwy am y flwyddyn i mewn i Gronfa'r Cyngor mewn perthynas ag ailddosbarthu Trethi Annomestig a'r Grant Cynnal Refeniw.
f) £1,682.19 - sef y swm yn (iii)(c) uchod a'r swm yn (iii)(d) a thynnu i ffwrdd y swm yn (iii)(e) uchod a rhannu'r cwbl gyda'r swm yn (ii)(a) uchod a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, fel swm sylfaenol Treth y Cyngor eleni.
g) £1,897,502 - sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf.
h) £1,627.32 - sef y swm yn (iii) (f) uchod a thynnu'r swm a geir o rannu'r swm yn (iii) (g) uchod gan y swm yn (ii) (a), a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, fel y swm sylfaenol ar gyfer Treth y Cyngor i aelwydydd yn y rhannau hynny o'i ardal nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol iddynt.
i) Treth y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys Bandiau Prisio Praeseptau Cynghorau Cymuned ar gyfer 2025/26.

	A £	B £	C £	D £	E £	F £	G £	H £	I £
Cwmbrân	1,117.79	1,304.08	1,490.39	1,676.68	2,049.28	2,421.87	2,794.47	3,353.36	3,912.25
Pont-y-pŵl	1,123.98	1,311.31	1,498.64	1,685.97	2,060.63	2,435.29	2,809.95	3,371.94	3,933.93
Blaenafon	1,154.53	1,346.94	1,539.37	1,731.79	2,116.64	2,501.47	2,886.32	3,463.58	4,040.84
Henllys	1,107.33	1,291.88	1,476.44	1,660.99	2,030.10	2,399.20	2,768.32	3,321.98	3,875.64
Croesyceiliog a Llanyrafon	1,114.99	1,300.82	1,486.66	1,672.49	2,044.16	2,415.82	2,787.48	3,344.98	3,902.48
Ponthir	1,110.53	1,295.62	1,480.71	1,665.80	2,035.98	2,406.15	2,776.33	3,331.60	3,886.87

Sef y symiau a geir trwy luosi'r swm yn (iii)(f) uchod gyda'r rhif sydd, yn yr eiddo a restrir yn Adran 5 (1) y Ddeddf, yn berthnasol i'r aelwydydd a restrir mewn band prisio penodol wedi ei rannu gan y rhif sydd y rhan honno sy'n berthnasol i aelwydydd a restrir ym Mand Prisio D a gyfrifwyd gan y Cyngor yn Adran 36(1) y Ddeddf, fel y symiau i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau aelwydydd a restrir mewn bandiau prisio gwahanol.

j) Bod y Cyngor, ar ôl cyfrif y cyfansymiau yn achosion y symiau (ii)(c) a (iii)(i) uchod, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol, yn gosod y symiau canlynol fel Treth Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2025/26 ar gyfer pob un o'r categorïau aelwydydd a ddangosir isod:

	A £	B £	C £	D £	E £	F £	G £	H £	I £
Cwmbrân	1,369.33	1,597.54	1,825.78	2,053.99	2,510.44	2,966.87	3,423.32	4,107.98	4,792.64
Pont-y-pŵl	1,375.52	1,604.77	1,834.03	2,063.28	2,521.79	2,980.29	3,438.80	4,126.56	4,814.32
Blaenafon	1,406.07	1,640.40	1,874.76	2,109.10	2,577.80	3,046.47	3,515.17	4,218.20	4,921.23
Henllys	1,358.87	1,585.34	1,811.83	2,038.30	2,491.26	2,944.20	3,397.17	4,076.60	4,756.03
Croesyceiliog a Llanyrafon	1,366.53	1,594.28	1,822.05	2,049.80	2,505.32	2,960.82	3,416.33	4,099.60	4,782.87
Ponthir	1,362.07	1,589.08	1,816.10	2,043.11	2,497.14	2,951.15	3,405.18	4,086.22	4,767.26

Rhan 3 – Cynlluniau ac asesiadau cysylltiedig

x. Mae'r Polisi Arian Wrth Gefn, fel nodir yn Atodiad 6, yn cael ei gymeradwyo.
xi. Mae'r Polisi Trosglwyddo Arian, fel y nodir yn Atodiad 7, yn cael ei gymeradwyo.
xii. Mae'r asesiad o gydraddoldeb a lles yn Atodiad yn cael ei nodi.

Rhan 4 - Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Chyfalaf a Dangosyddion Darbodus

Mae'r Strategaeth Gyfalaf, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus, fel yr amlinellir yn Atodiad 8, yn cael eu cymeradwyo.

10. CYNLLUN SIROL 2022-27: CYNLLUN CYFLAWNI 2025-26

10.1 Amlinellodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a oedd yn cyflwyno Cynllun Cyflawni'r Cynllun Sirol 2025-26 (sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad) i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu gan y Cyngor. Roedd y cynllun yn amlinellu ymrwymiadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni'r Cynllun Sirol yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26.

10.2 Dywedodd yr Aelod Gweithredol, Llywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau fel a ganlyn:

- Roedd yr adroddiad yn cynnig Cynllun Cyflawni Torfaen 2025/26 i'w gymeradwyo gan y Cyngor.
- Ers mabwysiadu'r Cynllun Sirol ym mis Rhagfyr 2022, roedd y cyngor wedi llunio a chyhoeddi Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Byddai hyn yn parhau drwy gydol oes y Cynllun Sirol, gan dynnu sylw at y gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.
- Mae Atodiad 1 yn nodi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol diweddaraf sy'n disgrifio gweithgarwch a gynlluniwyd ac y gellid ei ddefnyddio i asesu cynnydd yn ystod y flwyddyn i ddod.
- Fel y gwnaed mewn fersiynau blaenorol o'r Cynllun, roedd ei gyhoeddiad yn cyd-fynd â'r gyllideb flynyddol fel y gwnaeth trwy'r broses graffu gan alinio gwasanaethau'r cyngor a chynllunio ariannol yn agosach.
- Roedd y broses graffu yn hynod ddefnyddiol wrth helpu i fireinio'r gyllideb derfynol a oedd yn cael ei chyflwyno i'r cyngor heddiw, yn enwedig wrth sicrhau bod y Cynllun Cyflawni yn glir i'r holl aelodau, staff a phreswylwyr ynghylch ymrwymiad y cyngor wrth iddo anelu at gryfhau atebolrwydd ymhellach ar draws y cyngor.
- Nod y fasged o weithgareddau, cerrig milltir a mesurau perfformiad a ddisgrifir yn y Cynllun Cyflawni 25/26 arfaethedig oedd dod ag ymrwymiad y cyngor yn fyw i wella lles y rhai a oedd yn byw ac yn gweithio yn Nhorfaen gan ddefnyddio'r gyllideb sydd ar gael.
- Roedd yn hapus i argymell y Cynllun i'r cyngor i'w gymeradwyo.

10.3 Croesawodd yr Aelodau'r cyfle i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Trawsbynciol graffu ar Gynllun Cyflawni'r Cynllun Sirol a dywedon nhw ei fod yn braf gweld cydnabyddiaeth o'r pwyntiau allweddol a'u cynnwys yn y blaengynllun. Roedd yr aelodau yn gobeithio y byddai'r broses hon yn parhau yn y dyfodol.

10.4 Cytunodd y Cyngor yn unfrydol i gymeradwyo cynllun cyflawni'r Cyngor ar gyfer 2025-26, gan alinio ei weithgarwch allweddol â chyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod.

11. Y SIARTER I DEULUOEDD MEWN PROFEDIGAETH TRWY DRYCHINEB GYHOEDDUS

11.1 Amlinellodd y Pennaeth Cyfathrebu, Etholiadau ac Argyfyngau Dinesig (PCEAG) yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer ymrwymiad y cyngor i ymgorffori egwyddorion y Siarter i Deuluoedd Mewn Profedigaeth Trwy Drychineb Cyhoeddus yn ei ddiwylliant, ei bolisïau a'i arferion gweithredol. Eglurodd y byddai'r cyngor, drwy fabwysiadu'r Siarter hon ac anrhydeddu ei egwyddorion, yn rhoi sail i'r cyngor gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth a'r gymuned yn sgil digwyddiad mawr. Tynnodd sylw hefyd at ymrwymiad y cyngor i ganolbwyntio mwy ar bobl ac i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiad.

11.2 Croesawodd y Cyngor yr adroddiad a'r egwyddorion a amlinellir yn y Siarter.

11.3 Cytunodd y Cyngor yn unfrydol i gymeradwyo mabwysiadu'r Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd mewn Profedigaeth oherwydd Trychineb Cyhoeddus ac i anrhydeddu ei egwyddorion.

12. PROTOCOL SIARAD CYHOEDDUS

12.1 Amlinellodd y Rheolwr Gwasanaethau Cymorth Busnes a Democrataidd (RhGCBD) yr adroddiad a oedd yn rhoi protocol arfaethedig i'r Cyngor ar gyfer hwyluso siarad cyhoeddus mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu.

12.2 Gwnaeth yr Aelodau sylw o blaid yr adroddiad ac roeddyn nhw'n teimlo y byddai sgyrsiau gonest gydag aelodau'r cyhoedd yn cryfhau'r broses graffu. Cyfeiriwyd at y Fforwm Ieuenctid, ac roedd yr aelodau'n cydnabod manteision annog cyfranogiad pobl ifanc.

12.3 Mynegwyd rhywfaint o bryder ynghylch pwyso a mesur aelodau o'r cyhoedd a oedd yn bresennol yn y broses graffu. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau y byddai disgwyl i aelodau'r cyhoedd fod yn barchus a chadw at y protocol, ac os nad felly oedd pethau, byddai disgwyl i'r Cadeirydd ymyrryd.

12.4 Cytunodd y Cyngor yn unfrydol i gymeradwyo'r Protocol drafft Siarad Cyhoeddus mewn Cyfarfodydd Craffu a dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro (mewn ymgynghoriad â Gweithgor yr Aelodau ar y Cyfansoddiad) i wneud y newidiadau sydd eu hangen i Gyfansoddiad y Cyngo

13. Y DIWEDDARAF AM Y CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL, CADEIRYDDION PWYLLGORAU AC AELODAETH PWYLLGORAU

13.1 Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd (CGCPhGD) yr adroddiad a oedd yn:

- Rhoi gwybod i'r Aelodau am o ddiwygiadau i gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor o ganlyniad i'r Isetholiad a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2025 ar gyfer Ward Trefddyn a Phen-y-garn,
- Ceisio cytundeb i'r cydbwysedd gwleidyddol wedi'i ddiweddaru tan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mai 2025 neu hyd nes y bydd angen newidiadau pellach.

13.2 Cytunodd y Cyngor yn unfrydol:

- y newid mewn cydbwysedd gwleidyddol a mabwysiadodd aelodau'r cyfrifiadau cydbwysedd gwleidyddol yn Atodiad A i'r adroddiad.
- Penodi aelodau i wasanaethu ar y pwyllgorau yr effeithiwyd arnynt gan y newidiadau hyn fel y dangosir yn Atodiad B i'r adroddiad a gylchredwyd cyn y cyfarfod.

14. DATGANIAD POLISI CYFLOG 2025

14.1 Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor o'r Datganiad Polisi Cyflog 2025 yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011.

14.2 Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad a thynnodd sylw'r Aelodau at y pwyntiau canlynol a nodwyd yn y Datganiad Polisi Cyflog a atodwyd fel Atodiad 1 i'r adroddiad:

- Soniodd Adran 1.2 am barhad y Cyflog Byw Sylfaenol a argymhellwyd gan y sefydliad yn hytrach na'r isafswm cyflog ac a fyddai'n cael ei groesawu gan y staff ar y cyflogau isaf.
- Croesawodd y diweddariad yn Adran 6 am y Cyd-Brif Weithredwr, swydd ar y cyd a oedd yn arbed arian i'r ddau gyngor. Rhagwelwyd y byddai hyn yn arwain at fwy o arbedion mewn costau uwch arweinyddiaeth
- Amlinellodd Adran 8.6 gymhareb cyflog Prif Weithredwr i'r cyflog canolrif yn Nhorfaen, a oedd wedi gostwng i 4.50:1, y canllawiau oedd bod sefydliadau'n aros o dan 12:1, a oedd yn dangos bod cymhareb Torfaen ymhell o fewn ffiniau'r hyn a argymhellwyd gan yr adroddiadau cyflog teg.
- Croesawodd yr ail dabl o dan 8.6 a oedd yn cadarnhau fod nifer y graddau Prif Swyddogion bellach yn 29, i lawr o 31 llynedd, a oedd yn cadarnhau'r gwaith sy'n cael ei wneud i weithio o'r brig i'r symleiddio, gwneud gwasanaethau'n fwy effeithlon, ac i gael arian i'r rheng flaen.

14.3 Cytunodd y Cyngor yn unfrydol i gymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyflog ar gyfer 2025, fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1 yr adroddiad, fel crynodeb cywir o bolisi cyflog presennol y Cyngor at ddibenion cyhoeddiad o dan Ddeddf Lleoliaeth.

15. CYNIGION Â RHYBUDD

15.1 Cynigiodd Y Cynghorydd Janet Jones y canlynol:

'*Mae llywodraeth ganolog wedi ymrwymo dros y degawd nesaf i haneru nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod a merched. Mae hwn yn ddatganiad beiddgar ond yn un sy'n gallu cael ei gyflawni dim ond gyda chefnogaeth gan bob awdurdod lleol sy'n gallu*

gweithredu i atal a throi'r llanw.
Mae'n rhaid i ni sicrhau:
A. Bod gan ddioddefwyr fynediad at gymorth arbenigol a'u bod yn ddiogel.
B. Bod yr awdurdod yn ymrwymo i gyflawni addewidion y cynnig.
C. Bod yr awdurdod lleol yn sicrhau bod addysg gynhwysfawr yn ein hysgolion a'n colegau ar berthnasoedd iach.
D. Ein bod yn cynnal adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod ein gweithredoedd yn cyd-fynd â chanllawiau statudol ac yn mynd i'r afael ag anghenion goroeswyr.
E. Bod yr awdurdod lleol hwn yn penodi HYRWYDDWR TRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED a fydd yn dal yr awdurdod i gyfrif ac yn addo i gynyddu llais goroeswyr. Mae cymaint yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig. Mae menywod a merched yn byw mewn ofn o siarad ac yn aml iawn, mae'n rhy hwyr. Cefnogwch y cynnig os gwelwch yn dda.'

15.2 Rhoddodd y Cynghorydd Janet Jones ddata ychwanegol gan Elusen Lotus Flower a nododd ym mis Awst 2024:

- Bod trais yn erbyn menywod a merched wedi cynyddu 40% ar draws Cymru a Lloegr dros bum mlynedd.
- Roedd tua 20% o'r troseddau a adroddwyd yn cynnwys aflonyddu, stelcio, ymosodiad rhywiol a thrais domestig, tra bod data o ffynonellau eraill yn cynnwys treisio, anffurfio organau rhywiol, priodasau dan orfodaeth, ecsbloetio a gorfodaeth.
- Roedd yn ymddangos bod mwy o droseddau yn erbyn menywod a merched mewn grwpiau lleiafrifol.
- Roedd un o bob tri achos o ferched yn lladd eu hunain yn gysylltiedig â cham-drin domestig.
- Gadawyd llawer o ddioddefwyr â phroblemau iechyd meddwl hirdymor.
- Roedd yn cymryd saith ymgais i fenyw adael perthynas dreisgar a chamdriniol.
- Mae llawer o droseddau'n mynd heb eu cofnodi, ac nid oes gan ddioddefwyr fawr o hyder os o gwbl o gael cynnig y gefnogaeth angenrheidiol. Mae hyn ochr yn ochr â methiant yn y system cyfiawnder troseddol.
- Roedd llawer o ferched o dan 16 oed yn dioddef camdriniaeth a cham-drin rhywiol yn y cartref, ac yn aml nid oedd yn cael ei ganfod
- Roedd menywod a merched yn byw mewn ofn o siarad ac yn aml iawn roedd hi'n rhy hwyr.

Anogodd y Cynghorydd Jones yr awdurdod i weithredu.

15.3 Eiliwyd y cynnig.

15.4 Croesawyd a chefnogwyd y cynnig gydag aelodau'n gwneud sylwadau'n benodol fel a ganlyn:

- Byddai Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ar ddydd Sadwrn 8 Mawrth.
- Roedd mwy na 30 o lochesi merched yng Nghymru.
- Ni ddylai menywod a merched fyw mewn ofn o godi eu llais gan nad oedd yn fai arnynt byth - dylent roi gwybod am bob digwyddiad.
- Fel aelodau etholedig a oedd yn cael eu parchu yn y gymuned ac fel llywodraethwyr ysgol oedd yn cael eu parchu gan bobl ifanc a oedd yn gweld sut yr oedden nhw'n ymddwyn, roedd angen cydnabod pwysigrwydd bod yn enghreifftiau da.
- Roedd iaith yr aelodau fel enghreifftiau da yn iaith bwerus. Roedd iaith, testun

ysgrifenedig, geiriau caneuon neu dynnu coes sarhaus i gyd yn danfon negeseuon niferus i'r gymuned ac roedden nhw'n creu argraff a oedd yn atgyfnerthu'r diwylliant o wahaniaethu a cham-drin yn erbyn menywod a merched. Nid oedd yn iawn i ddefnyddio iaith sarhaus tuag at neu am fenywod a merched, diraddio menywod neu ferched, dibrisio menywod neu ferched, na bychanu neu normaleiddio iaith sarhaus neu misogynistaidd.

- Fel modelau rôl uchel eu parch yn y gymuned, mae'n rhaid i aelodau herio iaith sarhaus neu niweidiol i amddiffyn menywod a merched rhag niwed yn y dyfodol.
- Roedd yn bwysig gosod y naws o ran disgwyliadau.
- Yn ddiweddar, roedd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent wedi sefydlu fforwm yn cynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu a'r trydydd sector i edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â'r mater hwn. Roedd yr Aelod Gweithredol Llywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau wedi bod yn bresennol yn y fforymau ar ran y cyngor a byddai'n parhau i wneud hynny.

15.5 Cafwyd pleidlais a gofnodwyd, gyda'r aelodau'n pleidleisio fel y dangosir yn y tabl isod, gyda'r 36 aelod yn pleidleisio o blaid y cynnig. Cytunodd y Cyngor gefnogi'r cynnig yn unfrydol:

CYNGHORYDD	**O BLAID**	**YN ERBYN**
Stuart Ashley	✓	
Alfie Best	✓	
Catherine Bonera	*Ddim yn bresennol ar gyfer y bleidlais*	
Ron Burnett	*Ddim yn bresennol ar gyfer y bleidlais*	
Nick Byrne	✓	
Richard Clark	✓	
Lynda Clarkson	✓	
Liam Cowles	✓	
Fiona Cross	✓	
David Daniels	✓	
Steven Evans	✓	
Joanne Gauden	✓	
Karl Gauden	✓	
Elizabeth Haynes	*Ddim yn bresennol ar gyfer y bleidlais*	
Nick Horler	✓	
Jon Horlor	✓	
Anthony Hunt	✓	
Gaynor James	✓	
Jon James	✓	
Janet Jones	✓	
Mark Jones	✓	
Peter Jones	✓	
Stuart Keyte	✓	
Rosemary Matthews	✓	
Sue Morgan	✓	
Jason O'Connell	✓	
Amanda Owen	✓	
Norma Parrish	✓	
Caroline Price	✓	
Rose Seabourne	✓	
Nicholas Simons	✓	

Alan Slade	✓	
Chris Tew	✓	
Colette Thomas	✓	
David Thomas	✓	
Jayne Watkins	✓	
David Williams	✓	
Lucy Williams	✓	
Nathan Yeowell	✓	

15.6 Cynigiodd y Cynghorydd Karl Gauden y cynnig canlynol:

'Mae'r cyngor hwn yn nodi:
bod y Mesur Hawliau Cyflogaeth 2024 yn fesur a fydd yn diweddaru ac yn cryfhau hawliau cyflogaeth yn y DU.

Mae'r mesurau sy'n cael eu cyflwyno yn y Bil yn cynnwys;
Gwahardd contractau sero oriau ecsbloetiol trwy gyflwyno hawliau i oriau gwarantedig.
Dod ag arferion "diswyddo ac ailgyflogi" diegwyddor i ben trwy ystyried unrhyw ddiswyddo am fethiant i gytuno ar newid cytuneb fel rhywbeth sy'n annheg yn awtomatig
Rhoi hawl diwrnod cyntaf i amddiffyniad rhag diswyddo annheg.
Rhoi hawl i absenoldeb tadolaeth o ddiwrnod cyntaf cyflogaeth.
Cyflwyno hawl newydd i absenoldeb profedigaeth di-dâl a fydd yn caniatáu i gyflogeion fod yn absennol o'r gwaith i alaru am golli rhywun annwyl.
Cryfhau dyletswydd cyflogwyr i atal aflonyddu rhywiol ar eu gweithwyr drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd pob cam rhesymol i atal
Gwella mynediad at dâl salwch statudol drwy gael gwared ar y terfyn enillion is a dileu'r cyfnod aros o dri diwrnod.
Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr ac mae'r mesur yn cynnwys llu o fesurau sydd wedi'u cynllunio i gynyddu cynhyrchiant, codi safonau byw a chreu cyfleoedd i bawb.
Mae'r cyngor hwn yn credu:
Bod y mesurau a gynhwysir yn y mesur yn cynrychioli'r gwelliant mwyaf mewn hawliau cyflogaeth mewn cenhedlaeth ac unwaith y bydd y mesur wedi cael ei basio y bydd bywydau gwaith a theuluol trigolion Torfaen yn cael eu gwella'n sylweddol
Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:
